Ysgol I.D. Hooson
Heol Caradog
Rhosllannerchrugog
LL14 2DX
Ffôn: 01978 832950
Ffacs: 01978 832955
e-bost: mailbox@hooson-pri.wrexham.sch.uk

YSGOL I.D. HOOSON

Adroddiad Blynyddol Llywodraethwyr
Ysgol ID Hooson
2021-22

Cyflwyniad

Mae'n bleser cyflwyno'r Adroddiad Cyffredinol Blynyddol ar gyfer 2020-21. Mae'r ddogfen hon yn cynnwys crynodeb o fywyd a gwaith yr ysgol yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf. Hoffwn ddiolch i ddisgyblion, staff, rhieni, cyd-lywodraethwyr a chyfeillion yr ysgol am eu cefnogaeth yn ystod y flwyddyn arall heriol hon.

Fel ysgol, mae'n braf gwybod ein bod yn parhau i fod fel teulu agos. Ail gychwynwyd ar nifer o weithgaredau arferol yr ysgol yn dilyn y cyfnodau clo mewn perthynas a Covid, gyda staff a disgyblion wedi addasu'n wych i'r heriau newydd a gyflwynwyd a hoffwn ddiolch o galon iddynt am hynny.

Llwyddo yw un o'n nodau ar gyfer pob disgybl, ac rydym yn parhau i ymdrechu i wella ein safonau ymhellach. Byddwn yn parhau i addasu a gwella'r gwaith hwn wrth i ni barhau gyda'r gwaith o ddatblygu a chefnogi ein disgyblion i wneud cynnydd.

Gan ddiolch am eich cefnogaeth,

Mr Geraint Phillips
Cadeirydd y Corff Llywodraethu

Ein Gweledigaeth
Dysgu a thyfu gyda'n gilydd – Mae Ysgol I.D. Hooson yn cydnabod fod pob plentyn yn unigolyn, yn greadigol ac yn meddu ar yr angen i lwyddo. Felly, mae Ysgol I.D. Hooson yn parchu anghenion unigol pob plentyn, yn meithrin awyrgylch gofalgar a chreadigol ac yn pwysleisio datblygiad cymdeithasol, emosiynol, corfforol a chydwybodol pob plentyn

CYFARFOD

O sy bydd oleiaf 10% o rieni'r ysgol yn gwenud cais, cynhelir cyfarfod i drafod cynnwys yr adroddiad blynyddol. Dylai rhieni/ofalwyr fynegi ei dymuniad drwy e.bostio Mrs S Kelsall ar mailbox@hooson-pri.wrexham.sch.uk cyn 27ain o Ionawr 2023. Os bydd digon o rieni yn awyddus i gael cyfarfod, byddwn yn rhoi gwybod yr amser a'r trefniadau i chi mewn da bryd.

AELODAU'R CORFF LLYWODRAETHU

Yn ystod 2021-22, roedd un swydd wag ar gael ar y Corff Llywodraethu.

Geraint Phillips	Cadeirydd/Chair
Lynda Roberts	Is-Gadeirydd / Vice Chair
Adrienne Jones(ALl)	Clerc/Clerk

Llywodraethwr *Governor*	Cynrychioli *Representing*
Geraint Phillips	Cyfetholedig / *Co-opted*
Beth Williams	Cynrychiolydd Rhieni *Parents Representative*
Clwyd Richards	Cyfetholedig / *Co-opted*
Rhys Davies	Cynrychiolydd Awdurdod Addysg LEA Representative
Beth Wright	Cynrychiolydd Awdurdod Addysg LEA Representative
Lynda Roberts	Cynrychiolydd Awdurdod Addysg LEA Representative
Paul Pemberton	Cynrychiolydd Cyngor Bro Community Council Representative
Bethan Fell	Cynrychiolydd Rhieni *Parents Representative*
Sarah Kelsall	Cynrychiolydd Staff / Staff Representative
Hywel Dodd	Cynrychiolydd Rhieni *Parents Representative*
Pastor Joshua Roberts	Cynrychiolydd Rhieni *Parents Representative*
Dyfan Jones	Cynrychiolydd Athrawon Teacher Representative
Rhodri Jones	Pennaeth/Headteacher

Mae'r Corff Llywodraethu ym mhob ysgol yn gyfrifol am y canlynol:

Ymddygiad cyffredinol o fewn yr ysgol.
Sicrhau fod cwricwlwm yr ysgol yn cydymffurfio â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol, yr ysgol a pholisïau cyffredinol yr AALl.
Penderfynu ar bolisi'r ysgol mewn perthynas â darpariaeth addysg rhyw.
Penderfynu ar yr egwyddorion cyffredinol i'w dilyn gan y Pennaeth wrth osod a gweithredu polisi ymddygiad.
Rheoli cyllideb yr ysgol a ddarperir gan yr Awdurdod Lleol.
Cymryd rhan yn y broses o benodi staff i'r ysgol.
Sicrhau fod gwybodaeth am yr ysgol yn cael ei darparu i rieni.
Sicrhau fod gwybodaeth am gwricwlwm yr ysgol yn eang ac yn gytbwys ac yn bodloni gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol.

Sicrhau fod gwybodaeth am y cwricwlwm a chyraeddiadau disgyblion ar gael i rieni ac eraill.
Sicrhau fod yr ysgol yn bodloni'r gofynion statudol ar gyfer addysg grefyddol a chyd-addoli.
Paratoi Adroddiad Blynyddol a chynnal Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol â rhieni i drafod yr Adroddiad (os derbynnir digon o geisiadau)
Sicrhau fod disgyblion a staff yn gallu gweithio mewn amgylchedd dysgu diogel ac iach.

CYLLID

Mae'r wybodaeth ganlynol yn cynnwys crynodeb o wariant ariannol yr ysgol. Defnyddiwyd cyllideb yr ysgol i sicrhau'r profiadau addysgol gorau i ddisgyblion a sicrhau'r adnoddau priodol ar eu cyfer. Defnyddir cyllid ychwanegol i dargedu llythrennedd a rhifedd. Defnyddir y Grant Amddifadedd Cymdeithasol yn bwrpasol i fodloni anghenion penodol disgyblion, a threfnwyd adnoddau ychwanegol a staff er mwyn helpu i godi safonau.
Yn 21-22, derbyniodd Ysgol I D Hooson grant o £28,750 drwy'r Grant Amddifadedd Disgyblion. Gwariwyd yr arian ar:

- Gyflogi staff addysgu a dysgu gyda rôl arbennig yn darparu ymyrraeth a rhaglenni cymorth Llythrennedd a Rhifedd.
- Darparu gwasanaeth cwnsela i gefnogi dysgwyr.
- Darparu therapi chware i gefnogi dysgwyr.

Datganiad ariannol ar gyfer 2021/2022:

Balans Agoriadol (Cyllid/Grantiau ALl)	£1,013,595.00
Incwm	£406,775.98
Cyfanswm Incwm	£1,420,370.98
Gweithwyr	£1,064,304.12
Safleoedd	£79,784.52
Trafnidiaeth	£00.00
Cyflwenwadau	£28,080.18
Taliadau Trydydd Parti	£5,451.35
Gwasanaethau Cymorth	£68,808.57
Cyfanswm Gwariant	£1,246,428.74
Balans Terfynol Diwedd Blwyddyn	£173,942.24

Cronfa'r ysgol (Ebrill 2021 – Mawrth 2022)

Balans Agoriadol	£18,100.87
Derbynebau	£33,042.68
Gwariant	£34,575.71
Balans Terfynol	£16,567.84

STAFFIO

Mae staff yr ysgol yn cynnwys:
1 Pennaeth
11 athro/athrawes llawn amser
12 cymhorthydd llawn amser
1 Ysgrifennydd / Rheolwr Busnes llawn amser

Nifer y disgyblion wedi'u cofrestru ddiwedd mis Gorffennaf 2021:
Oedran meithrin - 38
Oedran Derbyn - 24
Blwyddyn 1 – 26
Blwyddyn 2 – 29
Blwyddyn 3 – 39
Blwyddyn 4 – 45
Blwyddyn 5 – 25
Blwyddyn 6 – 36

ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

Mae gan yr ysgol bolisi anghenion dysgu ychwanegol. Yn ystod 21-22, derbyniodd Mrs Laura Davies y cyfrifoldeb fel Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a chynhwysiant, gan fod yn gyfrifol am gydlynu gwaith â disgyblion a oedd ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol.
Cynigir cymorth a chefnogaeth i unigolion, grwpiau a darperir cymorth hefyd o fewn y dosbarth. Cydymffurfir â pholisi ADY a Chod Ymarfer yr ysgol. Mae disgyblion yn gwneud cynnydd ac yn elwa o'r cymorth y maent yn ei dderbyn. Mae'r ysgol yn gweithio'n agos ac yn ymgynghori â gwasanaethau cymorth amrywiol yr Awdurdod lleol yn rheolaidd. Cyflwynwyd y Cod Ymarfer ADY newydd.
Mrs L Roberts yw'r "llywodraethwr penodedig" sy'n gyfrifol am anghenion dysgu ychwanegol.

PRESENOLDEB

Penderfynodd Llywodraeth Cymru i beidio casglu ffigyraua thargedau presenoldeb am y flwyddyn 21-22. Disgwylir i rieni gysylltu â'r ysgol cyn gynted â phosibl i ddarparu rheswm dros absenoldeb. Os na dderbynnir eglurhad, yna bydd yr ysgol yn ei gofrestru fel absenoldeb anawdurdodedig. Mae'r ysgol yn annog rhieni i osgoi tynnu plant allan o'r ysgol i fynd ar wyliau yn ystod y tymor. Mae gweithdrefnau i gosbi gyda dirwyon am absenoldebau cyson wedi ei hail gyflwyno ers Medi 2022.

GWAHARDDIADAU
Gwaharddwyd ar 3 achlysur gwahanol yn ystod 20-21.

POLISÏAU'R YSGOL

Caiff polisïau eu harchwilio a'u hadolygu yn rheolaidd. Maent ar gael yn yr ysgol i unrhyw un sy'n dymuno eu gweld. Mae rhai polisïau hefyd ar gael ar wefan yr ysgol. Adolygwyd y polisïau canlynol yn ystod y flwyddyn:

Cynllun Cydraddoldeb Strategol	Cynaliadwyedd
Llawlyfr	Presenoldeb
Rheoli Perfformiad	Asthma
Cod ymarfer Llywodraethwyr	Llogi'r Adeilad
Rhoddion a Lletygarwch	Datganiad Cyfle cyfartal
Diogelu & Amddiffyn Plant	Trefn Cwyno
Bwlio	Cynllun Parhad
Tal	Diswyddo ac Adleoli
ADY	Amddiffyn Data
Hylendid	Cytundeb Ysgol Cartref

PROSBECTWS YR YSGOL

Mae prosbectws yr ysgol ar gael ar wefan yr ysgol. Caiff y prosbectws ei adolygu a'i ddiweddaru'n flynyddol.

DIOGELWCH

Mae'r ysgol yn sicrhau diogelwch pob budd-ddeiliad drwy gydymffurfio â pholisi Iechyd a Diogelwch yr ysgol.

DEFNYDD O'R IAITH GYMRAEG

Ysgol cyfrwng y Gymraeg yw Ysgol I D Hooson. Mae pob disgybl yn derbyn addysg drwy gyfrwng y Gymraeg hyd at ddiwedd blwyddyn 2. O flwyddyn 3 ymlaen, bydd disgyblion yn cychwyn dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Cymraeg yw iaith swyddogol yr ysgol, a sefydlir dwyieithrwydd drwy gydol cyfnod allweddol 2. Rhoddir pwyslais cryf ar hybu ac annog cyfleoedd a gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg gan godi ymwybyddiaeth ein disgyblion o draddodiadau Cymreig a diwylliant Cymru.

CANLYNIADAU'R ASESIAD STATUDOL

Nid oedd unrhyw ofyniad i adrodd ar ganlyniadau asesiadau i Lywodraeth Cymru i'r flwyddyn academaidd 21-22. Mae asesu a thracio yn broses barhaus sydd yn seiliedig ar dystiolaeth a gesglir o weithgareddau dyddiol ac ymateb disgyblion i weithgareddau llythrennedd a rhifedd amrywiol.

Y CWRICWLWM

Mae'r ysgol yn cynnig cwricwlwm cyflawn a chytbwys i bob plentyn, sydd yn eu tro yn datblygu eu sgiliau yn briodol ac i safon uchel. Defnyddir ystod o ddulliau addysgu i godi safonau. Bu'r ysgol yn parhau gyda'r gwaith o gyflwyno arddulliau dysgu ac addysgu newydd wrth ymateb i gyflwyniad cwricwlwm newydd i Gymru. Yn ystod y flwyddyn cyflwynwyd datganiad cwricwlwm newydd yr ysgol.

YMWELIADAU A GWEITHGAREDDAU ADDYSGOL A'R GYMUNED LEOL

Mae'r ysgol wedi parhau i weithio'n agos gyda nifer o asiantaethau lleol, gan gynnwys Gwasanaethau Cymdeithasol, y gwasanaeth Llefarydd ac Iaith, Nyrs Ysgol a'r gwasanaeth Ffisiotherapi, a manteisiwyd ar gyfleoedd eraill i weithio yn y gymuned leol.

Mae gan yr ysgol hefyd berthynas agos gyda'r Heddlu, ac mae swyddog addysg yr Heddlu, PC Mark Jones, yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd gan weithio gyda dosbarthiadau amrywiol ar bynciau iechyd a diogelwch.

Yn ystod 21-22 gwelwyd amryw o weithgareddau arferol yn ail-gychwyn yn amserlen yr ysgol. Cymerodd yr ysgol ran mewn cystadalethau a digwyddiadau oedd yn cynnwys cwis 'Dim Clem a phrosiect menter 'Y Criw Mentrus'. Dyma rai o weithgareddau'r flwyddyn.

Ymweliadau â'r ysgol	Ymweliadau
PC Mark Jones Tiwtoriaid Drymiau, Llinynnau, Pres a Chwythbrennau ar gyfer gwersi cerdd Teams 4U – casglu bocsys esgidiau Teams 4U – casglu bocsys esgidiau Seiwn cerdd arlein - 'Gwneud Sŵn' Cwmni tynnu lluniau Tempest Ymweliad gan y Bardd Bethan Gwanas Techniquest Sesiynau Tae Kwan Do Hyfforddiant Beicio a Diogelwch Ffordd Y Cwricwlwm Cynhwysol Will Cklarke – Technocamps Gweithdai Drama – Mewn Cymeriad Noddfa Geffylau Hack	Gwersyll yr Urdd Glan Llyn. – Blynyddoedd 4&5 Gymnasteg Olympus Llyfrgell Rhos Gwersyll yr Urdd Caerdydd Parc Saffari Knowsley Fferm Hufen Ia Theatr y Stiwt Pwll nofio Byd Dŵr 

Sioeau a Chyngherddau	Dathlu Dyddiau Arbennig
Blwyddyn 5 a 6 – Gwasanaeth Diolchgarwch Cyngherddau Nadolig – pob dosbarth yn ffilmio cyflwyniadau o ganeuon y Nadolig oedd ar gael i rieni ei prynu.	Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth – dydd gwisg goch Apêl Bocs Esgidiau Plant Mewn Angen Nosweithiau Rhieni(ar lein) Diwrnod Trwyn Coch Diwrnod y Llyfr Ymgyrch Achub y Plant – Gwisgo Siwmper Nadolig Wythnos Ryngwladol Diwrnod Defnyddio'r We yn ddiogel Diwrnod Owain Glyndŵr Diwrnod Cerddoriaeth Cŵl Dydd Gŵyl Dewi – Dathliad Ysgol




















BLAENORIAETHAU YSGOL

Cytunodd y Corff Llywodraethu ar bedair prif flaenoriaeth i wella'r ysgol yn y flwyddyn academaidd 21-22.

Crynodeb o flaenoriaethau 21-22	Gweithredu hyd yma
Continue with planning and preparing for the 2022 curriculum.	• Cyfleoedd pellach i osod ffocws ar gynllunio tuag at ddull thematig o weithio. • Cyfleoedd pellach i staff wella gwybodaeth a dealltwriaeth o gamau cynnydd cwriwclwm Newydd i Gymru. • Gweithgareddau hyfforddi ar y Cwricwlwm newydd i staff. • Gweithgareddau monitro mewnol gyda ffocws benodol ar baratoi tuag at y cwricwlwm newydd o fewn yr ystafell ddosbarth. • Ymweliadau ysgol i rannu arfer. • Datblygu a chyflwyno datganiad cwricwlwm newydd yr ysgol. • Adolygu a symud ymlaen.
Raise awareness, understanding of mental and physical health through the use of strategies and activities.	• Digwyddiadau hyfforddi staff • Ffocws ar gyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau sydd yn gosod ffocws ar iechyd a lles, gan gynnwys sesiynau a gweithgareddau cefnogi iechyd a lles penodol yn ogystal a gweithgareddau all-gwricwlwaidd. • Defnydd o holiaduron disgyblion.i gasglu barn.
Focus on arrangements and procedures in the introduction and implementation of the revised ALN code of practice	• Adolygiad o weithdrefnau ADY yr ysgol. • Hyffroddiant staff • Adolygu a diweddaru polisi • Adolygu trefniadau asesu gyda ffocws ar gynnydd dysgwyr

Bu swyddog Cefnogi Gwellaint GwE yn ymweld a'r ysgol yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn i fonitro cynnydd o ran gwaith yr ysgol yn ymateb i flaenoriaethau gwelliant yn ogystal a chefnogi gyda gweithgareddau monitro.

GWEITHGAREDDAU YCHWANEGOL AC ALLGYRSIOL

Yn ystod y flwyddyn bu disgyblion yn mwynhau gweithgareddau all-gyrsiol amrywiiol. Roedd rhain yn cynnwys gweithgareddau ar ol ysgol yn ogystal a ymweliadau. Roedd gweithgraeddau yn cynnwys Clwb Cyfle, Clybiau chwaraeaon, hyfforddiant beicio, cwlb Stem, Clkwb Lles, Clwb Rhedeg, Glan Llyn, Gwersyll yr Urdd Caerdydd.

.

CYDRADDOLDEB HILIOL

Mae polisi Cydraddoldeb Hiliol ar gael yn yr ysgol. Ni chafwyd unrhyw achosion o hiliaeth yn yr ysgol eleni.

DISGYBLION AG ANABLEDDAU

Mae'r Corff Llywodraethu yn derbyn eu cyfrifoldebau a'u dyletswydd mewn perthynas â disgyblion ag anableddau ac yn gweithredu i sicrhau nad ydynt yn gwahaniaethu ar sail anabledd. Os yw rhiant yn teimlo fod eu plentyn angen darpariaeth arbennig, dylid trafod y mater â'r pennaeth i ddechrau. Mae Cynllun Hygyrchedd ar gael yn yr ysgol. Bydd yr ysgol bob amser yn ceisio sicrhau eu bod yn atal disgyblion ag anableddau rhag cael eu trin yn llai ffafriol na disgyblion eraill drwy:

- Wrando a gofalu, er mwyn creu awyrgylch gynhwysol a sicrhau cyfleoedd cyfartal i bob disgybl.
- Codi ymwybyddiaeth yr ysgol am rai o'r anawsterau a brofir gan blant anabl.
- Sicrhau ein bod yn defnyddio dulliau rhesymol i ddarparu'r offer arbennig / arbenigedd sydd eu hangen ar blant anabl i wella ansawdd eu haddysg a'u lles.
- Cwblhau'r cynllun hygyrchedd bob blwyddyn ac adolygu meysydd i'w gwella neu eu newid.

CYFLEUSTERAU A DDARPERIR I HELPU MYNEDIAD

Mae'r ysgol ar un lefel.
Mae'r brif fynedfa yn addas ar gyfer cadeiriau olwyn.
Mae'r coridorau'n ddigon llydan i ddarparu mynediad at y prif ddosbarthiadau.
Byddai'r ysgol bob amser yn fodlon trafod integreiddiad plant ag anableddau amrywiol.
Mae gan yr ysgol doiledau hygyrch.

CYSYLLTU GYDA'R GYMUNED

Mae'r ysgol wedi gweithio'n agos gyda'r gymuned leol fel rhan o weithgareddau amrywiol. Mae gweithgaredddau sydd wedi ymwneud a'r gymuned wedi gynnwys :
Dysgu am yr ardal leol fel rhan o waith thema
Gwned defnydd rheoliadd o'r ardal leol e.e. ymweliad i'r Stiwt, siopau lleol, Capel Bethel
Mae gan yr ysgol gyntychiolaeth ar Gyngor Ieienctid Rhos
Cymryd rhan yn yr eisteddfod
Cyswllt gyda Swyddog Cefnogi'r Gymuned yr Heddlu
Gweithgio mewn partneriaeth gyda Ysgol Morgan Llwyd
Cyfraniadau misol i bapur bro y Nene
Cor meibion Rhos yn gwneud defnydd o gyfleusterau yr ysgol.

BYW'N IACH

Mae'r ysgol yn rhan o gynllun Ysgolion Iach yr Awdurdod Lleol. Darperir ffrwythau a llaeth i ddisgyblion yn y cyfnod sylfaen. Anogir pob disgybl i fwyta ffrwyth, byrbryd iach ac yfed dwr fel rhan o gynllun ysgolion iach yr Awdurdod Lleol. Ni ganiateir siocled, fferins a diodydd pefriog fel byrbrydau yn y bore a'r prynhawn. Yn ystod y flwyddyn trefnwyd digwyddiadau oedd yn gosod ffocws ar iechyd a ffitrwydd.

DARPARIAETH TOILEDAU

Mae gan yr ysgol doiledau arbennig ar gyfer bechgyn a merched yn y prif adeilad ac yn y dosbarthiadau caban y tu allan. Mae cyfleusterau golchi dwylo a pheiriannau sebon a sychwyr dwylo trydanol ym mhob un o'r toiledau. Caiff y toiledau eu glanhau'n ddyddiol gan lanhawyr a gyflogir gan yr Awdurdod Lleol.

AMSEROEDD Y SESIYNAU

O ganlyniad i'r sefyllfa yn ymwneud a Covid-19, penderfynwyd addasu ychydig ar yr amserlen ddyddiol er mwyn hwyluso ein trefniadau iechyd a diogelwch.

Meithrin y Bore	9.00 – 11.30 a.m.
Meithrin y Prynhawn	12.30 – 3.00 p.m.
Derbyn / Blwyddyn 1 / Blwyddyn 2	9.15 – 11.30 a.m. 12.25 – 2.45 p.m.
Blynyddoedd 3 / 4	8.55 – 12.15 p.m. 1.00 – 3.00 p.m.
Blynyddoedd 5 / 6	8.55 – 12.30 p.m. 1.15 – 3.00 p.m.

.

DYDDIADAU TYMOR YSGOL 2022 / 2023

Tymor yr Hydref

Agor	Dydd Iau Medi 1af 2022
Cau	Dydd Gwener Hydref 28ain 2022
Agor	Dydd Llun Tachwedd 7fed 2022
Cau	Dydd Gwener Rhagfyr 23ain 2022

Tymor y Gwanwyn

Agor	Dydd Llun Ionawr 9fed 2023
Cau	Dydd Gwener Chwefror 17eg 2023
Agor	Dydd Llun Chwefror 27ain 2023
Cau	Dydd Gwener Mawrth 31ain 2023

Tymor yr Haf

Agor	Dydd Llun Ebrill 17eg 2023
Gŵyl Banc Mai	**Dydd Llun Mai 1af 2023**
Gŵyl Banc	**Dydd Llun Mai 8fed 2023**
Cau	Dydd Gwener Mai 26ain 2023
Agor	Dydd Llun Mehefin 5ed 2023
Cau	Dydd Iau Gorffennaf 20fed 2023

Diwrnodau Hyfforddiant Staff, pan fydd yr ysgol ar gau

Dydd Iau Medi 1af 2022
Dydd Gwener Medi 2ail 2022
Dydd Gwener Hydref 28ain 2022
Dydd Llun Ionawr 9fed 2023
Dydd Mawrth Ionawr 10fed 2023
Dydd Llun Ebrill 17eg 2023(i'w gadarnhau)